PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Swyddog Hyfforddi

## Pecyn Cais

plantyngnghymru.org.uk

# Cyflwyniad

Bwriad y set hon o wybodaeth yw rhoi darlun llawnach i chi o'r hyn y mae'r swydd yn ei olygu a gwybodaeth am Plant yng Nghymru.

Mae'r disgrifiad swydd wedi'i gynllunio i grynhoi cwmpas a chyfrifoldebau'r swydd yn glir a dylid eu darllen yn drylwyr. Pwrpas y fanyleb person yw nodi, mor fanwl gywir â phosibl, isafswm y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth y mae'n rhaid i ymgeiswyr feddu arnynt i fodloni gofynion y swydd. **Mae'n hanfodol eich bod yn darllen hwn yn ofalus a bod eich cais yn ymateb i'r meini prawf yn y fanyleb person.** Bydd methu â gwneud hynny yn lleihau eich siawns o gael eich dewis ar gyfer cyfweliad yn sylweddol.

Bydd y broses ymgeisio yn cau am **hanner dydd 29 Ebrill 2026**

Bydd ein tîm recriwtio yn llunio rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Ni fyddant yn cael eich manylion cysylltu nac unrhyw wybodaeth cyfle cyfartal. Bydd y wybodaeth a ddarperir gan ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel am gyfnod o 1 flwyddyn ac yna'n cael ei dinistrio'n gyfrinachol.

Er mwyn bod yn economaidd, dim ond drwy e-bost y gallwn gydnabod bod eich cais wedi ein cyrraedd.

Os byddwch yn llwyddo i gael cyfweliad, cewch wybod drwy'r cyfeiriad e-bost a roddwyd i ni. Bwriedir cynnal cyfweliadau ar **13 Mai 2026.**

**Rydym yn deall y gall offer AI gynorthwyo gyda phrawfddarllen a mireinio cynnwys; fodd bynnag, gofynnwn i bob deunydd cais, gan gynnwys llythyrau eglurhaol ac ymatebion, gael eu hysgrifennu yn eich geiriau eich hun i adlewyrchu eich sgiliau a'ch profiadau gwirioneddol.**

# Disgrifiad Swydd

**Teitl Swydd:** **Swyddog Hyfforddi**

**Yn adrodd i:** Rheolwr Hyfforddi

**Lleoliad:** Hybrid – gweithio ystwyth o gartref ac yn y swyddfa yng Nghaerdydd

**Oriau Gwaith:** 28 awr yr wythnos – yn ystod tymor ysgol yn unig

**Contract:** Tymor penodol hyd at ddiwedd 31 Mawrth 2027

**Cyflog:** £21,536.28 y flwyddyn (FTE £35,893.80)

**Gwyliau Blynyddol:** 15 diwrnod y flwyddyn (a Gwyliau Banc hefyd)

**Dull Talu Cyflog:** Telir cyflogau'n uniongyrchol i gyfrif banc enwebedig yr aelod staff ar y 15fed o bob mis

**Pensiwn:** Mae gweithwyr Plant yng Nghymru yn cael eu cofrestru'n awtomatig i'r Cynllun Pensiwn Gweithle, ond cewch ddewis optio allan

**Ynglŷn â'r rôl:**

Bydd deiliad y swydd yn hyfforddwr profiadol a bydd yn gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant effeithiol o ansawdd uchel. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant Diogelu i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda babanod, plant a phobl ifanc yng Nghymru, a chynnwys arall sy'n gysylltiedig â'r sector plant. Bydd hyfforddiant yn digwydd yn rhithwir ar-lein neu wyneb yn wyneb mewn lleoliadau ledled Cymru.

Bydd y Swyddog Hyfforddi, gan weithio o fewn tîm, yn chwilio'n rhagweithiol am gyfleoedd newydd i ddatblygu'r rhaglen hyfforddi ymhellach a sicrhau bod ei chynnwys yn adlewyrchu amcanion strategol Plant yng Nghymru mewn perthynas â'r CCUHP, a deddfwriaeth berthnasol.

**Prif gyfrifoldebau a dyletswyddau:**

- Gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu, cyflwyno a chynnal rhaglen hyfforddi amlasiantaethol a hysbysebir ar gyfer sefydliadau'r sector statudol, gwirfoddol ac annibynnol yng Nghymru

- Cyflwyno cyrsiau hyfforddi rhyngweithiol a diddorol, a'r rheiny ar-lein yn rhithwir ac wyneb yn wyneb, ar amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â diogelu a hawliau plant, wedi'u hanelu at ymarferwyr sy'n cefnogi babanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd mewn amrywiaeth o leoliadau

- Cyfrannu at ddatblygu portffolio o gyrsiau hyfforddi sy'n cael eu llywio gan faterion, blaenoriaethau, deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol

- Cymryd rhan yn y broses o sicrhau ansawdd y rhaglen hyfforddi drwy ddatblygu a chymhwyso offerynnau gwerthuso’n gyson

- Nodi cyfleoedd pan fo modd i gynnwys plant a phobl ifanc yn y rhaglen hyfforddi, gan ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth ddatblygu a chyflwyno cynnwys

- Gweithio gyda staff eraill Plant yng Nghymru i ddatblygu rhaglen farchnata brand a rhannu gwybodaeth, yn cynnwys defnyddio gwefan Plant yng Nghymru

- Cynorthwyo'r Rheolwr Hyfforddi i sicrhau bod rhaglen hyfforddi Plant yng Nghymru yn gwneud cyfraniad ariannol a gytunwyd arno i'r sefydliad

- Datblygu a chyfrannu at geisiadau am gyllid i Plant yng Nghymru yn ôl yr angen

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd goruchwylio unigol, cyfarfodydd cynllunio ac adolygu, ac mewn cyfarfodydd staff rheolaidd

- Cyflawni tasgau gweinyddol priodol i gefnogi eich gwaith eich hun yn ôl yr angen

- Hyrwyddo a gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at bolisi dwyieithog y sefydliad

- Ymgymryd ag unrhyw dasgau eraill a gytunir â'r rheolwr llinell, a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Nid yw’r rhestr hon yn gynhwysfawr; mae'n bosibl y bydd dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill y bydd gofyn i'r deiliad swydd eu cyflawni o bryd i'w gilydd er mwyn cyfrannu at y gwaith o gyflwyno gweithgareddau Plant yng Nghymru

# Manyleb Person

## Gofynion Allweddol – Hanfodol:

1. Cymwysedig hyd at lefel gradd mewn pwnc perthnasol neu brofiad perthnasol cyfatebol o fewn y sector plant yng Nghymru
2. Gwybodaeth ymarferol dda am y system amddiffyn plant gan gynnwys profiad o nodi ac adrodd pryderon, a'r prosesau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn cyd-destun amlasiantaethol
3. O leiaf ddwy flynedd o brofiad mewn rôl hyfforddi neu gyfwerth, a oedd yn cynnwys dylunio a chyflwyno pecynnau hyfforddi diddorol a rhyngweithiol, i ymgysylltu ag amrywiaeth o ddysgwyr
4. Ymwybyddiaeth o ddatblygiadau cyfredol mewn darpariaeth hyfforddiant, gan gynnwys dysgu cymysg ac anghydamserol
5. Yn gallu dangos ymrwymiad i werthoedd ac egwyddorion Plant yng Nghymru, gan gynnwys hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth ac arfer cynhwysol
6. Gwybodaeth am ddeddfwriaeth, polisi ac arfer cyfredol Cymru o fewn y sector plant a theuluoedd, yn enwedig mewn perthynas ag amddiffyn a diogelu plant
7. Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar datblygedig iawn
8. Sgiliau cynllunio a threfnu rhagorol
9. Cymhwysedd mewn gweithio gyda gwybodaeth a thechnoleg gyda phrofiad o ddefnyddio offer cyflwyno ar-lein fel Microsoft Teams a Zoom yn effeithiol
10. Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm
11. Yn gallu dangos gwybodaeth gref am werthoedd ac egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), ac ymroddiad i'r egwyddorion hynny, gyda phenderfyniad i hyrwyddo ei weithrediad
12. Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio'n rheolaidd ledled Cymru. Mae trwydded yrru lawn, lân a mynediad at gerbyd yn hanfodol i gyflawni'r dyletswyddau gofynnol.

## Gofynion Allweddol – Dymunol

13. Maes o wybodaeth berthnasol arbenigol i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant ar e.e. iechyd meddwl Plant a Phobl Ifanc, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Anghenion Dysgu Ychwanegol
14. Y gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg
15. Dealltwriaeth a phrofiad da o gynhyrchu incwm
16. Dangos dealltwriaeth o sicrhau ansawdd
17. Tystiolaeth o sgiliau a llwyddiant wrth ddatblygu syniadau marchnata a chreu busnes.

# Gwybodaeth Gefndir

Plant yng Nghymru – Children in Wales yw'r sefydliad aelodaeth cynrychioladol cenedlaethol ar gyfer unigolion a sefydliadau o bob sector sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Mae ein haelodaeth yn dod o'r sectorau cyhoeddus, elusennol/dielw ac annibynnol. Bydd ein gwaith yn cael ei ategu gan ddull cydweithredol, sy'n hwyluso cyfleoedd i'n haelodau, ac i blant a phobl ifanc.

Byddwn yn gweithio tuag at ein gweledigaeth mewn cydweithrediad â'n haelodau drwy:

- Ymgyrchu dros fabwysiadu a gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llawn ar bob lefel o gymdeithas Cymru
- Herio anghydraddoldebau a hyrwyddo cydraddoldeb i bob plentyn a pherson ifanc ledled Cymru
- Dod â llais cyfunol ynghyd a'i gryfhau ar gyfer trawsnewid ar lefel polisi yng Nghymru
- Hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn strwythurau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o lywodraeth yng Nghymru
- Darparu llwyfan ar gyfer rhannu arferion arloesol ledled Cymru
- Eiriol dros y sector(au) plant mewn meysydd blaenoriaeth
- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer gweithlu proffesiynol plant traws-sector
- Ymgymryd â gwaith ymchwil a'i rannu ar draws ein haelodaeth.

Mae Plant yng Nghymru yn cynnal nifer o weithgareddau er mwyn cyflawni'r nodau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Trefnu cynadleddau a seminarau
- Darparu Hyfforddiant
- Cefnogi a datblygu rhwydweithiau a fforymau cryf
- Cynhyrchu a rhannu gwybodaeth
- Cynrychioli ac ymgynghori ag aelodau
- Ymchwil
- Gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc drwy ein prosiect Cymru Ifanc.

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth â'i chwaer sefydliadau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac mae gan y sefydliad gysylltiadau cryf yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

Fel sefydliad aelodaeth rydym yn sefydlu rhwydweithiau yng Nghymru er mwyn cynrychioli barn yr etholaeth, sefydlu pryderon cyffredin ac annog gweithgaredd amlddisgyblaethol. Gall aelodau fod naill ai'n gorfforaethau neu'n unigolion a dod o amrywiaeth eang o feysydd megis iechyd, addysg, sefydliadau gwirfoddol, gwasanaethau cymdeithasol neu grwpiau hunangymorth.

Mae ein gwaith yn cael ei ariannu gan grantiau gan Lywodraeth Cymru, rhoddwyr grantiau eraill a thrwy incwm a gynhyrchir gennym ni ein hunain.
Llywodraethir gwaith y sefydliad gan Fwrdd Ymddiriedolwyr
http://plantyngnghymru.org.uk